**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-794
Ein cyf/Our ref: FM -/05058/17

David John Rowlands AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

5 Rhagfyr 2017

Annwyl David

Rwyf yn ymateb i'ch llythyr ar 21 Tachwedd, anfonwyd yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylid ymestyn y rhyddfraint ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau'r Llywodraeth Leol ac Cynulliad i gynnwys pawb sy'n 16 oed neu'n hŷn yn ystod y diwrnod pleidleisio. Roedd hyn wedi'i gynnwys yn y papur ymgynghori "Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru", a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017. Daeth yr ymgynghoriad i ben fis diwethaf ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

Mae pobl ifanc 16 ac 17 oed eisioes yn gallu pleidleisio mewn etholiadau yn yr Alban a hefyd wedi pleidleisio mewn niferoedd mawr yn refferendwm yr Alban yn 2014. Mae gan bobl ifanc ddiddordeb mawr mewn materion gwleidyddol ac mae elfen dinasyddiaeth weithgar o addysg bersonol a chymdeithasol yn galluogi ystyried digwyddiadau cyfredol tra maen nhw'n dal yn yr ysgol.

Bwriad Llywodraeth Cymru y bydd pobl 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol.

Yn Gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.